# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 13eg Hydref 2025
## Festri Capel Tudweiliog

Presennol: Alyn Williams, Deio Williams,Terry Hughes, Chirs Brady, Henri Hughes, Sian Parri,Gareth Jones, Sioned Pearson

Ymddiheuriadau: Catrin Williams, Dafydd Williams, John Davies, Alan Hughes

1. Estynnodd y Cadeirydd Sioned Pearson groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Er mwyn ceisio penderfynnu y ffordd ymlaen, bydd rhaid gweithio allan y gost. Bydd Chris Brady yn cysylltu a Dafydd Wynne Finch i drafod pris y tir. Bydd angen ystyried codi'r praesept y flwydd yn nesaf.
   b. **Polisi Gosod Tai** –Derbynwyd cadarnhad gan Llanw Llyn eu bod yn hapus i gyhoeddi erthygl fydd yn gofyn y cwestiwn os oes angen lleol gwirioneddol am yr holl dai sy'n cael ac ar fin cael eu adeiladu ym Mhen Llyn – bydd Sian Parri a'r Clerc yn dod at eu gilydd i ysgrifennu'r erthygl.
   c. **Hysbysfwrdd –** Addawodd Chris y byddai'r hysbysfwrdd yn cael ei osod cyn diwedd y mis.
   C. **Archwyliad Allanol –** Ni chafwyd unrhyw ymateb gan yr Archwylwyr allanol fel yr addewid erbyn diwedd Medi.
   Ch. **Ymddiswyddiad y Clerc –** Dywedodd y Clerc nad oedd unrhyw ymateb wedi dod I'r hysbyseb swydd y Clerc. Gofynodd i'r Cynghorwyr feddwl eto sut bydd symud ymlaen i gael Clerc newydd.

d. **Diffibrilwyr** – Mynychodd y Clerc y cyfarfod yn Abersoch, rhoddodd adroddiad byr o'r hyn a drafodwyd, gan bwysleisio pa mor bwysig ydi archwylio'r Diffib yn fisol, ai gofrestru hefo 'The Circuit'

dd. **Gor yrry drwy pentref Tudweiliog –** Derbynwyd ebost gan y Cynghorydd Sir Gareth T Jones yn ein gwybyddu bod Swyddog o'r Cyngor wedi bod yn trafod hefo trigolyn o Tudweiliog oedd wedi casglu tystiolaeth am y gor yrry dros amser helaeth. Bydd y tystiolaeth yma yn cael ei anfon at dim yr Heddlu 'Gan Bwyll'. Bydd y Cyngor hefyd yn adnewyddu y llinellau/stribedi paent Coch ar y ffordd fel eu bod yn fwy amlwg ar gwr Tudweiliog.

e. **Ffens maes parcio Ysgol Tudweiliog –** Hyd yma ni chafwyd ymateb.

f. **Clawdd y Lion angen ei dorri –** Derbynwyd ymateb yn datgan fod Swyddog or Cyngor wedi bod yn asesu ac y byddai yn cysylltu a perchennog y clawdd. Erbyn heno, deallwyd fod y clawdd wedi ei dorri.

ff. **Malurio Adeiladau Porthysgaden –** Derbynwyd ymateb gan Carter Jonas oedd yn cydweld fod hyn yn broblem. Dywedodd eu bod wedi cesio sawl ffordd i atal hyn rhag digwydd ond yn amlwg does dim yn rhwystro'r malunrio. Byddent yn ymweld eto ar safle, bydd yn cysylltu pan fydd penderfyniad wedi ei wneud.

4. Gohebiaeth:

a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu.

b. **Anfoneb ICO £52.00 –** derbynwyd caniadad I'w thalu

c. **Anfoneb Llanw Llyn £18.00–** derbynwyd caniatad I'w thalu

Ch.**Anfoneb Haydn E Williams Cyf £1266.00 –** derbynwyd caniatad I'w thalu

d. **Rhwydwaith Cynghorau Cymuned –** Cafodd pawb gyfle I'w ddarllen.

5. Unrhyw fater arall:

a. Derbynwyd cwyn for tractorau yn difrodi cloddiau yn Dinas a sawl ardal arall. Mae hyn yn broblem sydd ar gynnydd ar hyn lonydd bychain Pen Llyn gan fod tractorau yn mynd yn fwy ac yn fwy. Bydd y Clerc yn holi'r adran priffyrdd i gael gwybodaeth os oes unrhyw beth ellir ei wneud.

b. Arwydd gwartheg yn croesi yn Hirdre Fawr – Er bod arwydd wedi ei osod bellach, daeth yn amlwg mai ond o ochor Tudweiliog am Edern mae’r arwydd, ac ymddengys fod hwn yn rhy agos i’r cae ple mae’r gwartheg yn croesi, sydd ddim yn rhoi digon o rybudd. Bydd y Clerc yn cysylltu a’r adran Priffyrdd gan ofyn iddynt osod arwydd o’r cyfeiriad arall hefyd.
c. Dwr ar y lon – Daeth cwyn fod dwr yn llifo dros wyneb y ffordd ger adwy Trigwm ar lon Beudu Bigyn i’r Sarn. Mae’n edrych yn debyg fod y pibell cario dwr wedi blocio. Bydd y Clerc yn cysylltu a’r adran Priffyrdd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Tachwedd 10fed am 7.30yh
Festri Capel Garnfadryn.